

Dewis Brechu Moch Daear yn Hytrach na'u Difa

Ar 20 Mawrth, cyhoeddodd John Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd Llywodraeth Cymru, na fyddai'n gweithredu cynllun i ddifa moch daear yn rhan o'r ymdrechion i ddileu TB gwartheg yn yr ardal triniaeth ddwys yng ngogledd Sir Benfro.

Dywedodd y Gweinidog wrth siarad am ei benderfyniad:

"Bu hwn yn benderfyniad anodd ei wneud. Wrth benderfynu, ystyriais y buddion tebygol y gallai brechu neu ddifa eu cael. Byddai angen cyfiawnhau unrhyw benderfyniad i ddifa ar y sail y byddai'n angenrheidiol er mwyn dileu neu leihau nifer yr achosion o TB mewn gwartheg yn sylweddol.

"Rwyf wedi ystyried y dystiolaeth a roddwyd i mi, gan gynnwys cyngor gwyddonol a chyfreithiol, a nodais y cyngor ar y buddion posibl y gellir eu cael drwy frechu neu ddifa. Ar hyn o bryd, nid wyf yn sicr y byddai difa moch daear yn angenrheidiol i gael lleihad sylweddol yn yr achosion o TB mewn gwartheg." Pwysleisiodd y Gweinidog bod dileu TB yn ymrwymiad hirdymor a fyddai'n gofyn am weithredu technolegau newydd a datblygiadau gwyddonol wrth iddynt ddod ar gael. Roedd hefyd wedi gofyn i'r Prif Ffildeddyg ymgasglu gweithgor o arbenigwyr i ddatblygu strategaeth brechu gwartheg er mwyn gallu gwneud y defnydd gorau o frechiad o'r fath unwaith y byddai ar gael.




Photo: Jon Hawkins

Pearartneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro

Cyfrol 9 Rhifyn 2

Haf 2012

Yn y rhifyn hwn



Dewis Brechu Moch
Daear yn Hytrach na'u
Difa
Tudalennau 1-2



Adnabod Berdys
Goresgynnol –Allwedd
Newydd
Tudalennau 2-3

facebook

Bioamrywiaeth ar
Facebook!
Tudalen 3



Wythnos Bioamrywiaeth
Cymru
Tudalen 4



Plufwsogl Tywysog Cymru
ym Mharc Natur Manor
House
Tudalennau 4-5



Ymgyrch Sbwriel Pysgota
Tudalen 5

Digwyddiadau
Tudalennau 6-14

Manylion Cysylltu
Tudalen 15

Croesawyd y cyhoeddiad gan Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, a dywedodd fod 'brechu, ochr yn ochr â rheoli symud a rheolaeth briodol yn ymdriniaeth flaengar i reoli'r clefyd.' Dywedodd Rachel Sharp, Prif Swyddog Gweithredol Ymddiriedolaeth Natur Cymru, 'mae'r penderfyniad yn agor y drws i Gymru ddechrau rhaglen frechu gyflawn a fydd yn gynaliadwy ac yn effeithiol yn yr hirdymor.'

Mae Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) wedi mynegi pryderon ynghylch y cyngor cyfreithiol a gwyddonol y seiliwyd penderfyniad y Gweinidog arno. Mewn llythyr i'r Gweinidog, gofynnodd llywydd yr FUW, Emyr Jones, am i'r cyngor gael ei gyhoeddi. Mae'r FUW o'r farn nad yw brechu wedi'i brofi mewn profion ar raddfa fawr, ond bod rhaglenni difa wedi lleihau achosion TB mewn gwartheg yn gyson ers y 1970au.


Mae difa moch daear mewn rhannau o Loegr yn dal ar y gweill a bydd yn ddiddorol cymharu effeithiolrwydd yr agweddau yn y ddwy wlad. Gellir gweld datganiad y Gweinidog yma: <http://wales.gov.uk/docs/drah/publications/120320tboralstatementen.pdf>

Ant Rogers.

Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth

Adnabod Berdys Goresgynol –Allwedd Newydd

Rhywogaethau goresgynol, anfrodorol yw un o'r bygythiadau mwyaf difrifol i fioamrywiaeth dŵr croyw, yn fyd-eang ac ym Mhrydain. Er bod sawl rhywogaeth anfrodorol yn eithaf diniwed yn ecolegol ac yn economaidd, gall lleiafrif ohonynt beri canlyniadau llawer mwy difrifol.



Asellus aquaticus,
the water slater.
Illustration © M.
Dobson/FBA 2012

Achos o bryder neilltuol yw'r 'berdys dŵr croyw' (deudroediaid ac isopodau) sydd fel arfer yn niferus mewn dŵr croyw ac felly'n rhan bwysig o gadwyni bwyd mewn dŵr croyw. Nid yw berdys dŵr croyw yn gwasgaru'n hawdd rhwng basnau afonydd, ond gallant fanteisio ar weithgareddau dynol megis camlesi neu bibelli dŵr gydag effaith ddifrifol ar fioamrywiaeth frodorol. Yn ogystal â chystadlu â berdys brodorol, mae berdys goresgynol hefyd yn bygwth anifeiliaid a phlanhigion brodorol, er enghraifft drwy fwyta infertebratau ac wyau pysgod. Unwaith iddynt sefydlu'u hunain, nid oes dim modd eu difa. Yn yr Iseldiroedd, mae rhai ecosystemau wedi profi 'dinistr ymosodol' lle mae'r rhan fwyaf o'r rhywogaethau brodorol wedi'u disodli a mwy na 95% o'r biomas yn cynnwys rhywogaethau goresgynol.



Dikerogammarus villosus, the so-called 'killer shrimp'. Photo © M. Dobson/FBA 2012, reproduced with permission.

Enghraifft ddiweddar yw'r 'berdys rheibus', *Dikerogammarus villosus*, sydd wedi lledaenu'n gyflym ar draws Ewrop ers adeiladu Camlas y Rhein-Main-Donaw yn 1992 ac mae wedi cytrefu'n ddiweddar ym Mhrydain, gan gynnwys Bae Caerdydd a Chronfa Ddŵr Eglwys Nunydd. Mae mesurau boddigolwch llym ar waith yn y ddau safle gyda chymorth pob rhanddeiliad, ac nid yw rhaglen fonitro helaeth Asiantaeth yr Amgylchedd wedi darganfod rhagor o gytrefi berdys rheibus yng Nghymru.

Yn ogystal â *D. villosus*, mae yno chwe rhywogaeth o ferdys anfrodorol dŵr croyw wedi sefydlu ym Mhrydain (o gymharu â dim ond pum rhywogaeth frodorol). Mae dwy rywogaeth o Ogledd America, *Crangonyx pseudogracilis* a *Gammarus tigrinus*, yn gyffredin ym Mhrydain, gan gynnwys Sir Benfro. Tybir bod 15 rhywogaeth o ferdys goresgynnol arall yn debygol o gytrefu ym Mhrydain yn y dyfodol agos. Er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'r ffordd i'w rheoli ac i gyfyngu ar ymlediad y rhywogaethau hynny, mae'n rhaid i ni fedru eu hadnabod yn ddibynadwy.

Mae'r Gymdeithas Dŵr Croyw Biolegol, a ariannir gan Defra, wedi cynhyrchu allwedd fanwl â darluniau sy'n cynnwys pob rhywogaeth frodorol ac anfrodorol sydd yn, neu sy'n debygol o gyrraedd Prydain. Bydd y cyhoeddiad hwn yn ein helpu i dargedu gweithgareddau rheolaeth ac yn atal camrybuddion. Gallwch ei lawrlwytho am ddim drwy'r ddolen isod:
www.fba.org.uk/downloads

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am Gwirio Glanhau Sychu, ymgyrch Boddlogelwch Defra i gyfyngu ar y rhywogaethau dyfrol goresgynnol, ar wefan Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Anfrodorol Prydain Fawr:
<https://secure.fera.defra.gov.uk/nonnativespecies/index.cfm?sectionid=98>

Mae'r ddwy wefan hefyd yn cynnwys gwybodaeth am rywogaethau goresgynnol yn ogystal â'r amgylchedd dŵr croyw ehangach.

Dr Tristan Hatton-Ellis

yw Arweinydd Tîm Dŵr Croyw yn CCGC ac mae'n gadeirydd Grŵp Ecosystem Dŵr Croyw Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.



Bioamrywiaeth ar Facebook!

Yn ddiweddar, mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro wedi lansio ei thudalen Facebook ei hun. Y bwriad yw darparu modd o gael mynediad at yr wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau, adroddiadau diddorol a dolenni i sefydliadau sy'n bartneriaid. Gallwch wasgu'r botwm "hoffi" i roi gwybod i ni pa ddolenni roedd gennych ddiddordeb neilltuol ynddynt. Ymwelwch â'r dudalen newydd yma:

www.facebook.com/PembrokeshireBiodiversity



Gallwch barhau i ddefnyddio'r wefan swyddogol: http://www.pembrokeshire.gov.uk/content.asp?nav=1626,109,135&parent_directory_id=646

ac wrth gwrs, cofrestrwch i gael y cylchlythyr hwn am ddim drwy'r post neu drwy e-bost.

Cysylltwch â'r Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth i gael rhagor o wybodaeth.

Ant Rogers

Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth



Ant Rogers - Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth
anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk 01437764551



Wythnos Bioamrywiaeth Cymru
Wales Biodiversity Week

Bydd Wythnos Bioamrywiaeth Cymru eleni yn cael ei chynnal rhwng 9 a 17 Mehefin. Bydd Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro yn cynnal stondin ym Marchnad Ffermwyr Hwlfordd ddydd Gwener 15 Mehefin. Dewch i gwrdd â ni am sgwrs am faterion bioamrywiaeth yn Sir Benfro.

Dewis arall fyddai mynd am dro yng nghoedwig Pengelli gydag Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, neu ymweld ag Ynys Sgomer am y dydd. Ceir manylion yn yr adran ddigwyddiadau.

Mae rhagor o ddigwyddiadau yn cael eu trefnu wrth i'r cylchlythyr hwn gael ei gyhoeddi. I gael yr wybodaeth ddiweddaraf, ymwelwch â'r wefan: http://www.pembrokeshire.gov.uk/content.asp?nav=1626,109,135&parent_directory_id=646

neu ewch i'n tudalen Facebook:
www.facebook.com/PembrokeshireBiodiversity

Ant Rogers

Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth

Plufwsogl Tywysog Cymru ym Mharc Natur Manor House

Ymwelodd Sam Bosanquet o CCGC â Pharc Bywyd Gwyllt Manor House fis Ionawr eleni a chafodd ei "syfrdanu wrth weld coeden wedi'i gorchuddio â Phlufwsogl prin Tywysog Cymru (*Leptodon smithii*)" bron yn syth wrth iddo fynd mewn i'r parc wrth "y Sycamorwydden ysbennydd ger y fynedfa i dir caeedig y Walabïaid."

Dychwelodd Sam i'r parc ym mis Chwefror ac fe wnaeth ef â'r Uwch Geidwad Paul Harry arolwg llawn o holl goed y parc. Fe wnaethant ddarganfod tua 16 metr sgwâr o blufwsogl Tywysog Cymru ar 10 coeden.

Dyma'r gytref fwyaf o bell ffordd yng Nghymru, o ran yr arwyneb a orchuddir a nifer y coed y mae'n ei chynnwys.

Mae *Leptodon smithii* wedi'i ychwanegu at adran 42 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, gan ei ddynodi'n flaenoriaeth uchel i'w gadw yng Nghymru oherwydd y dirywiad yn ei ystod a'i boblogaeth. Mae'n fwsogl hynod o nodedig a gafodd ei enw cyffredin o'r tebygrwydd rhwng yr egin sych ac arwyddlun Tywysog Cymru. Fe'i cofnodwyd mewn 16 safle yng Nghymru, ond mae llawer o'r cofnodion hyn yn hen ac nid yw *Leptodon* wedi'i weld ers y 1970au mewn mwy na hanner y safleoedd.



Leptodon smithii.
Photo: Sam Bosanquet

Dywedodd Sam fod, "y gytref sy'n weddill ym Morgannwg yn fach iawn, gan adael y chwe phoblogaeth yn Sir Benfro yn droedle olaf y mwsogl hwn yng Nghymru. Colli coed aeddfed ynghyd â gallu gwael i gytrefu sy'n cael eu beio am ddirywiad y *Leptodon*, a gall yr anallu i ailgenhedlu fod yn eithaf difrifol ar ymyl gogleddol yr ystod o rywogaethau.

Dywed adroddiad Sam, "Tybir bod y coed yn Manor House yn berffaith ar gyfer y boblogaeth *Leptodon* gan eu bod ddigon gwasgaredig i foncyffion y coed ddal yr haul a bod yn gynnes am ran o'r diwrnod, ond ddim mor agored â llawer o goed y gwrychoedd. Mae gan bedwar safle arall yn Sir Benfro boblogaethau eithaf cryf o *Leptodon*, ac mae pob un o'r rhain mewn dyffrynnoedd heulog sydd eto'n gysgodol; mae gan y bumed gytref yng nghroesffordd Knowle, ddarn 30x30cm ohono ar Sycamorwydden ifanc."

Rhywogaeth arall ac iddi arwyddocâd cadwraeth a gofnodwyd yn ystod yr arolwg oedd llysiau'r afu 'Rossetti's Pouncewort' (*Cololejeunea rossettiana*) sy'n brin iawn yn genedlaethol, yn y frigiad calchfaen ger Pwll y Fflamingos ac Ogof yr Ystlumod. Dim ond dwy boblogaeth arall sy'n hysbys yn Sir Benfro – mewn dyffrynnoedd calchfaen yn Bosherton a Maenorbŷr a dim ond dau safle sy'n hysbys ym Morgannwg. Does dim yn hysbys yn Sir Gaerfyrddin nac yng Ngheredigion, ac mae llai na 100 yn y DU gyfan.

Cofnodwyd 65 rhywogaeth o fwsogl (53 rhywogaeth amhenodol) a llysiau'r afu (12 rhywogaeth amhenodol) yn gyfan gwbl yn ystod yr arolwg.

Glenda Wilkinson
Parc Bywyd Gwyllt Manor House

Ymgyrch Sbwriel Pysgota

Mae'r Gymdeithas Cadwraeth Forol yn cydweithio â Chyngor Cefn Gwlad Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Asiantaeth yr Amgylchedd, Fforwm Arfordir Sir Benfro, Byddin Glanhawyr Sbwriel Neptune (NARC), Cadwch Gymru'n Dacius a Ffederasiwn o Hyfforddwyr Pysgota Sir Benfro i daclo problem y sbwriel pysgota ar Arfordir Sir Benfro.



Amlygwyd maint y broblem gan NARC, grŵp o blymwyd gwirfoddol sy'n plymio mewn lleoedd poblogaidd i bysgota o amgylch yr Arfordir ac yn casglu'r sbwriel. Er enghraifft, casglodd y plymwyd 247 o bwysau pysgota a 450 bachyn yng Nghei Ystagbwl a rhyddhau 25 cranc-heglog, 1 cimwch a morgi a oedd ynghlwm mewn llinynnau pysgota a daflwyd.

Caiff y prosiect ei brofi yn Sir Benfro ac yng Ngogledd Iwerddon gyda'r bwriad o'i weithredu mewn mannau eraill o arfordir Cymru os bydd yn llwyddiannus. Bydd y prosiect yn cael ei lansio yn ystod Wythnos Bysgod Sir Benfro.

Dr Lou Luddington
Y Gymdeithas Cadwraeth Forol



Victim of Angling Litter
Photo: Dave Kennard, NARC

Cyrsiau Hyfforddi ym Mai – Awst 2012

Dyddiad	Teitl	Manylion	Cyswllt
4 – 8 Mai	Cadwraeth a Rheolaeth Coetiroedd Canolfan Faes Orielton	Cwrs y Cyngor Astudiaethau Maes	Canolfan Faes Orielton Ffôn: 01646 623920 enquiries.or@field-studies-council.org
4 – 8 Mai	Cyflwyniad i Adnabod Adar Canolfan Faes Orielton	Cwrs y Cyngor Astudiaethau Maes	Canolfan Faes Orielton Ffôn: 01646 623920 enquiries.or@field-studies-council.org
8 – 12 Mai	Planhigion Arfordirol Sir Benfro Canolfan Faes Orielton	Cwrs y Cyngor Astudiaethau Maes	Canolfan Faes Orielton Ffôn: 01646 623920 enquiries.or@field-studies-council.org
8 – 13 Mai	Crefft Ffotograffu Natur Canolfan Faes Orielton	Cwrs y Cyngor Astudiaethau Maes	Canolfan Faes Orielton Ffôn: 01646 623920 enquiries.or@field-studies-council.org
8 – 13 Mai	Gerddi Hanesyddol Canolfan Faes Orielton	Cwrs y Cyngor Astudiaethau Maes	Canolfan Faes Orielton Ffôn: 01646 623920 enquiries.or@field-studies-council.org
12 Mai	Adnabod Mamaliaid Bach a Sgiliau Arolygu Parc Slip, Pen-y-bont ar Ogwr	Bydd Rob Strachen yn trafod dulliau arolygu Mamaliaid bach megis Llygod, Chwistlod a Draenogiaid. Ymddiriedolaethau Natur De a Gorllewin Cymru.	Marie Lindley Ffôn: 01656724100 E-bost: info@welshwildlife.org
12 Mai	Cyflwyno Cennau 1 Canolfan Faes Orielton	Cwrs y Cyngor Astudiaethau Maes	Canolfan Faes Orielton Ffôn: 01646 623920 enquiries.or@field-studies-council.org
19 Mai	Cyflwyno Cennau 2 Canolfan Faes Orielton	Cwrs y Cyngor Astudiaethau Maes	Canolfan Faes Orielton Ffôn: 01646 623920 enquiries.or@field-studies-council.org
26 Mai	Hanfodion Adnabod Pryfetach Parc Slip, Pen-y-bont ar Ogwr	Trosolwg o grwpiau pryfetach daearol y DU, gan gynnwys adnabyddiaeth maes. Ymddiriedolaethau Natur De a Gorllewin Cymru.	Marie Lindley Ffôn: 01656724100 E-bost: info@welshwildlife.org
2 Mehefin	Adnabod Planhigion Fasgwlaidd Parc Slip, Pen-y-bont ar Ogwr	Adnabyddiaeth maes o blanhigion Fasgwlaidd yn un o safleoedd glaswelltir pwysicaf Cymru. Ymddiriedolaethau Natur De a Gorllewin Cymru.	Marie Lindley Ffôn: 01656724100 E-bost: info@welshwildlife.org
30 Mehefin	Adnabod Rhedyn Canolfan Natur Cymru, Cilgerran	Bydd yr Athro Barry Thomas yn trafod ecoleg, hanes bywyd a'r ffyrdd o adnabod Rhedyn Prydeinig. Ymddiriedolaethau Natur De a Gorllewin Cymru.	Marie Lindley Ffôn: 01656724100 E-bost: info@welshwildlife.org

Cyrsiau Hyfforddi ym Mai – Awst 2012

Dyddiad	Teitl	Manylion	Cyswllt
20 – 24 Gorffennaf	Byd Natur Sir Benfro yn yr haf Canolfan Faes Orierton	Cwrs y Cyngor Astudiaethau Maes	Canolfan Faes Orierton Ffôn: 01646 623920 enquiries.or@field-studies-council.org
23 – 27 Gorffennaf	Adnabod Hesa a Brwyn Canolfan Faes Orierton	Cwrs y Cyngor Astudiaethau Maes	Canolfan Faes Orierton Ffôn: 01646 623920 enquiries.or@field-studies-council.org
28 Gorffennaf	Ecoleg Ymlusgiaid a Sgiliau Arolygu Parc Slip, Pen-y-bont ar Ogwr	Bydd Dr Rhys Jones yn trafod ecoleg a chadwraeth ein rhywogaethau o ymlusgiaid brodorol. Ymddiriedolaethau Natur De a Gorllewin Cymru.	Marie Lindley Ffôn: 01656724100 E-bost: info@welshwildlife.org
13 – 17 Awst	Wythnos Hwyl i'r Teulu Canolfan Faes Orierton	Cwrs y Cyngor Astudiaethau Maes	Canolfan Faes Orierton Ffôn: 01646 623920 enquiries.or@field-studies-council.org

Digwyddiadau Bioamrywiaeth ym Mai – Awst 2012

Dyddiad	Teitl	Manylion	Cyswllt
2 Mai	Sgomer: Ynys Wylt Martin's Haven a Sgomer	Ewch ar daith mewn cwch i'r ynys hudol lle byddwch yn ymuno â thaith gerdded bedair milltir wedi'i thywys i ddod o hyd i adar, blodau gwyllt a hanes.	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040
5 Mai	Agoriad Swyddogol Llwybr Arfordir Cymru	O 5 Mai, bydd hi'n bosibl cerdded ar hyd holl arfordir Cymru. Beth am gerdded ar hyd rhan ohono ar y diwrnod hanesyddol hwn?	I gael rhagor o wybodaeth a mapiau, ewch i: http://www.ccw.gov.uk/enjoying-the-country/wales-coast-path.aspx
8 Mai	Taith Gerdded Natur Coed Canaston	Crwydr natur drwy Goed Mynwar a Chanaston. Bydd ychydig dros filltir o hyd ac yn para awr neu ddwy, gan ddibynnu ar yr hyn a welwn. Cwrdd am 6.30pm yn yr ardal barcio ger Melin Blackpool, cyfeirnod grid SN059143. Croeso i bawb.	Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru Lynda Hickling Ffôn: 01834 810307 E-bost: lynda@thehicklings.co.uk
9 Mai	Sgomer: Ynys Wylt Martin's Haven a Sgomer	Ewch ar daith mewn cwch i'r ynys hudol lle byddwch yn ymuno â thaith gerdded bedair milltir wedi'i thywys i ddod o hyd i adar, blodau gwyllt a hanes.	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040
11 – 13 Mai	Digwyddiad Glanhau'r Traethau yn y Gwanwyn Abermawr/ Aberbach a Martin's Haven/ Sgomer	Ymunwch â'r Gymdeithas Cadwraeth Forol i lanhau'r traethau yn y gwanwyn.	I gofrestru, ewch i: www.mcsuk.org/foreverfish

Digwyddiadau Bioamrywiaeth ym Mai – Awst 2012

Dyddiad	Teitl	Manylion	Cyswllt
15 Mai	Gweilch yn Sir Benfro Canolfan Natur Gymunedol Ty Ffowndri, Penfro	Sgwrs fer â lluniau gan Barry Potter ynglŷn â gweld Gweilch yn y sir. Croeso i bawb. Drysau'n agor am 7.15 pm.	Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru Lynda Hickling Ffôn: 01834 810307 E-bost: lynda@thehicklings.co.uk
19 Mai	Canolfan Natur Cymru – Ei Hanes Canolfan Natur Cymru, Cilgerran	Dewch i brofi hanes diddorol Corsydd Teifi, teithiau cerdded, sgyrsiau a llawer rhagor sy'n digwydd yng Nghanolfan hyfryd Natur Cymru.	Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru Ffôn: 01239 621200 E-bost: wwc@welshwildlife.org
19 Mai	Taith Gerdded wedi'i Thywys Mae Castellmartin	Glöynnod Byw Britheg y Gors a llawer rhagor – dim ond 20 lle felly mae archebu eich lle yn hanfodol.	Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru Robin Taylor Ffôn: 01348 840617
23 Mai	Sgomer: Ynys Wyllt Martin's Haven a Sgomer	Ewch ar daith mewn cwch i'r ynys hudol lle byddwch yn ymuno â thaith gerdded bedair milltir wedi'i thywys i ddod o hyd i adar, blodau gwyllt a hanes.	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040
30 Mai	Sgomer: Ynys Wyllt Martin's Haven a Sgomer	Ewch ar daith mewn cwch i'r ynys hudol lle byddwch yn ymuno â thaith gerdded bedair milltir wedi'i thywys i ddod o hyd i adar, blodau gwyllt a hanes.	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040
4 Mehefin	Safari Mewn Pwll Freshwater East	Gweithgaredd llawn hwyl i'r teulu cyfan. Cewch weld a darganfod y bywyd gwyllt rhyfeddol ym mhwl newydd y Parc Cenedlaethol yn Freshwater East. Gwisgwch esgidiau glaw.	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040
5 Mehefin	Taith Gerdded yn Lawrenni Cei Lawrenni	Ymunwch â ni am grwydr natur ger moryd, tir amaeth a choedwig yn Lawrenni. Cwrdd am 6.30pm yng Nghei Lawrenni. Cyfeirnod grid SN011061. Croeso i bawb.	Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru Lynda Hickling Ffôn: 01834 810307 E-bost: lynda@thehicklings.co.uk
6 Mehefin	Sgomer: Ynys Wyllt Martin's Haven a Sgomer	Ewch ar daith mewn cwch i'r ynys hudol lle byddwch yn ymuno â thaith gerdded bedair milltir wedi'i thywys i ddod o hyd i adar, blodau gwyllt a hanes.	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040
6 Mehefin	Pryfaid ac Anifeiliaid Bach Castell Henllys	Mae sawl creadur rhyfedd yn ymgartrefu yng nghorneli a holltau Castell Henllys. Pa fath o bryfaid ac anifeiliaid bach? Dewch i ymuno â'n hecolegwyr a darganfyddwch y byd dirgel hwn!	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040

Digwyddiadau Bioamrywiaeth ym Mai – Awst 2012

Dyddiad	Teitl	Manylion	Cyswllt
6 Mehefin	Min nos yn Colby Gardd Goedwig Colby	Dewch i ddarganfod natur y goedwig wrth i'r dydd droi'n nos ar y daith hon sy'n filltir o hyd, gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.	Ffôn: 01834 811885
7 Mehefin	Min nos yn Colby Gardd Goedwig Colby	Dewch i ddarganfod natur y goedwig wrth i'r dydd droi'n nos ar y daith hon sy'n filltir o hyd, gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.	Ffôn: 01834 811885
9 Mehefin	Cerdded yng Nghoed Pengelli Coed Pengelli	Taith gerdded yng Nghoed Pengelli i weld y newidiadau a'r gwelliannau diweddar.	Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru Robin Taylor Ffôn: 01348 840617
13 Mehefin	Sgomer: Ynys Wyllt Martin's Haven a Sgomer	Ewch ar daith mewn cwch i'r ynys hudol lle byddwch yn ymuno â thaith gerdded bedair milltir wedi'i thywys i ddod o hyd i adar, blodau gwyllt a hanes.	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040
15 Mehefin	Sioe Deithiol Bioamrywiaeth Hwlfordd	Ymwelwch â'r stondin Bioamrywiaeth ym Marchnad Ffermwyr Hwlfordd sy'n rhan o Wythnos Bioamrywiaeth Cymru. Gwybodaeth, cyngor a digon i gnoi cil drosto.	Ant Rogers Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth Ffôn: 01437 764551 E-bost: anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk
20 Mehefin	Sgomer: Ynys Wyllt Martin's Haven a Sgomer	Ewch ar daith mewn cwch i'r ynys hudol lle byddwch yn ymuno â thaith gerdded bedair milltir wedi'i thywys i ddod o hyd i adar, blodau gwyllt a hanes.	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040
23 Mehefin	Wythnos Bysgod – Digwyddiad Agoriadol Marina Milffwrdd	Dathliad o bysgod, arfordir, diwylliant a threftadaeth bysgota Sir Benfro – peidiwch â cholli stondin Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro!	Cyngor Sir Penfro Kate Morgan Ffôn: 01437 764551
24 Mehefin	Taith Gerdded yn yr Afon i'r Ifanc Solfach	Cyfle i edrych yn fanwl a darganfod y gwir am fywyd yr afon. Dewch â'ch rhwydi eich hunain, gwisgwch esgidiau glaw neu esgidiau jeli i gerdded ar hyd gwely'r afon!	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040
26 Mehefin	Gwirioni ar y Frân Groesgoch Marloes – Parc Ceirw	Mae Sir Benfro yn falch o ymffrostio ei bod yn un o gadarnleoedd y Frân Goesgoch yn y DU. Dewch i ddysgu am aelod prinnaf Prydain o deulu'r Frân ar y daith gerdded fer hon.	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040
27 Mehefin	Sgomer: Ynys Wyllt Martin's Haven a Sgomer	Ewch ar daith mewn cwch i'r ynys hudol lle byddwch yn ymuno â thaith gerdded bedair milltir wedi'i thywys i ddod o hyd i adar, blodau gwyllt a hanes.	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040

Digwyddiadau Bioamrywiaeth ym Mai – Awst 2012

Dyddiad	Teitl	Manylion	Cyswllt
3 Gorffennaf	Taith Gerdded yng Nghoed Ystangbwl	Ymunwch â ni ar gyfer crwydr natur mewn coedwig yng Nghoed Ystangbwl. Cwrdd am 6.30pm yn yr ardal barcio ychydig i'r gorllewin o bentref Ystangbwl. Cyfeirnod grid SR981965.	Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru Lynda Hickling Ffôn: 01834 810307 E-bost: lynda@thehicklings.co.uk
4 Gorffennaf	Sgomer: Ynys Wyllt Martin's Haven a Sgomer	Ewch ar daith mewn cwch i'r ynys hudol lle byddwch yn ymuno â thaith gerdded bedair milltir wedi'i thywys i ddod o hyd i adar, blodau gwyllt a hanes.	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040
8 Gorffennaf	Taith Gerdded wedi'i Thywys Mynyddoedd y Preseli, Carn Menyn	Taith gerdded ar Fynyddoedd y Preseli o amgylch Carn Menyn.	Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru Robin Taylor Ffôn: 01348 840617
11 Gorffennaf	Sgomer: Ynys Wyllt Martin's Haven a Sgomer	Ewch ar daith mewn cwch i'r ynys hudol lle byddwch yn ymuno â thaith gerdded bedair milltir wedi'i thywys i ddod o hyd i adar, blodau gwyllt a hanes.	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040
24 Gorffennaf	Dal Crancod Porthclais	Dysgwch am grancod a'r ffordd i'w dal a gofalu amdanynt. Darparir offer. Rhaid i blant ddod gydag oedolyn.	Oriel Y Parc, Tyddewi Ffôn: 01437 720392 E-bost: info@orielparc.co.uk
24 Gorffennaf	Ystlumod Rhagorol Oriel Y Parc	Taith gerdded sy'n addas i'r teulu, i chwilio am ystlumod. Gwrandewch ar eu galwadau ar synwryddion arbennig a dysgwch am eu ffordd o fyw anarferol.	Oriel Y Parc, Tyddewi Ffôn: 01437 720392 E-bost: info@orielparc.co.uk
25 Gorffennaf	Pryfaid ac Anifeiliaid Bach Castell Henllys	Mae sawl creadur rhyfedd yn ymgartrefu yng nghorneli a holltau Castell Henllys. Pa fath o bryfaid ac anifeiliaid bach? Dewch i ymuno â'n hecolegwyr a darganfyddwch y byd dirgel hwn!	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040
25 Gorffennaf	Ystlumod Rhagorol Castell Caeriw	Teithiau cerdded byr o amgylch adeiladau hanesyddol Sir Benfro yn chwilio am ystlumod. Gwrandewch am yr ystlumod ar synwryddion arbennig a dysgwch am eu ffordd o fyw anarferol. Dewch â fflach lampau. Fe'ch cyngorwn i ddod â dillad ychwanegol.	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040
27 Gorffennaf	Gwyllo Bywyd Gwyllt Morol Gyda'r Nos Porthgain	Taith gerdded fer ar yr arfordir i chwilio nesyddol Sir Benfro yn chwilio am ystlumod. Cymru. am y miloedd o Balod Manaw wrth iddynt ddychwelyd i ynysoedd Sir Benfro ar ôl diwrnod ar y môr. Cyfle gwyh i chwilio am enghreifftiau eraill o fywyd gwyllt morol.	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040

Digwyddiadau Bioamrywiaeth ym Mai – Awst 2012

Dyddiad	Teitl	Manylion	Cyswllt
27 – 28 Gorffennaf	Gŵyl Really Wild Tyddewi	Hyrwyddo a dangos bwyd a dyfwyd neu a gynhyrchwyd yn lleol, neu gynnyrch gwyllt a gasglwyd o'r gwrychoedd, o'r arfordir, o'r traethau a'r afon a bydd digonedd i'w weld a'i wneud ac yn bwysicach na dim, digonedd i'w fwyta.	Ffôn: 07792 170349 E-bost: julia@reallywildfestival.co.uk
28 Gorffennaf	Ystlumod Rhagorol Llys yr Esgob, Tyddewi	Teithiau cerdded byr o amgylch adeiladau hanesyddol Sir Benfro yn chwilio am ystlumod. Gwrandewch am yr ystlumod ar synwryddion arbennig a dysgwch am eu ffordd o fyw anarferol. Dewch â fflach lampau. Fe'ch cynghorwn i ddod â dillad ychwanegol.	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040
1 Awst	Crwydro'r Pyllau Glan Môr Cei Ystangbwl	Archwiliwch y pyllau a mannau bas y môr i ddarganfod pa fywyd gwyllt rhagorol sy'n rhannu'r lle arbennig hwn. Dysgwch am eu cylchoedd bywyd, eu harferion bwyta a'r ffordd maent yn goroesi yn y cynefin heriol hwn.	Ffôn: 01646 661425 E-bost: Stackpoleevents@nationaltrust.org.uk
1 Awst	Pryfaid ac Anifeiliaid Bach Castell Henllys	Mae sawl creadur rhyfedd yn ymgartrefu yng nghorneli a holltau Castell Henllys. Pa fath o bryfaid ac anifeiliaid bach? Dewch i ymuno â'n hecolegwyr a darganfyddwch y byd dirgel hwn!	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040
2 Awst	Datgelu'r Traeth: Archwilio Pyllau Glan Môr Freshwater East	Ymunwch â'r chwilio wrth i ni edrych yn fanwl ar y bywyd gwyllt diddorol a'r rhyfeddodau naturiol ar yr arfordir.	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040
2 Awst	Datgelu'r Traeth: Archwilio Pyllau Glan Môr Poppit	Ymunwch â'r chwilio wrth i ni edrych yn fanwl ar y bywyd gwyllt diddorol a'r rhyfeddodau naturiol ar yr arfordir.	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040
2 Awst	Archwilio Pyllau Glan Môr Oriol Y Parc	Ymunwch â'r chwilio wrth i ni edrych yn fanwl ar y bywyd gwyllt diddorol a'r rhyfeddodau naturiol ar yr arfordir. Rhaid i blant fod yng nghwmni oedolyn.	Oriel Y Parc, Tyddewi Ffôn: 01437 720392 E-bost: info@orielparc.co.uk
2 Awst	Taith Gerdded yn yr Afon i'r Ifanc Solfach	Cyfle i ddod i wybod am fywyd yr afon mewn manylder. Dewch â'ch rhwydi eich hunain, gwisgwch esgidiau glaw neu esgidiau jeli i gerdded ar hyd gwely'r afon!	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040

Digwyddiadau Bioamrywiaeth ym Mai – Awst 2012

Dyddiad	Teitl	Manylion	Cyswllt
3 Awst	Gwyllo Bywyd Gwyllt Morol Gyda'r Nos Pen-Caer	Taith gerdded fer ar yr arfordir i chwilio nesyddol Sir Benfro yn chwilio am ystlumod. Cymru. am y miloedd o Balod Manaw wrth iddynt ddychwelyd i ynysoedd Sir Benfro ar ôl diwrnod yn y môr. Cyfle gwyh i chwilio am enghreifftiau eraill o fywyd gwyllt morol.	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040
7 Awst	Ystlumod Rhagorol Castell Caeriw	Teithiau cerdded byr o amgylch adeiladau hanesyddol Sir Benfro yn chwilio am ystlumod. Gwrandewch am yr ystlumod ar synwryddion arbennig a dysgwch am eu ffordd o fyw anarferol. Dewch â fflach lampau. Fe'ch cynghorwn i ddod â dillad ychwanegol.	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040
8 Awst	Pryfaid ac Anifeiliaid Bach Castell Henllys	Mae sawl creadur rhyfedd yn ymgartrefu yng nghorneli a holltau Castell Henllys. Pa fath o bryfaid ac anifeiliaid bach? Dewch i ymuno â'n hecolegwyr a darganfyddwch y byd dirgel hwn!	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040
8 Awst	Bywyd Dirgel y Nant Gardd Goedwig Colby	Dewch i ddarganfod y bywyd gwyllt diddorol sydd mewn nentydd a phyllau; gweithgareddau ymarferol a hwyl i'r teulu drwy'r dydd. Digwyddiad mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040
8 Awst	Ystlumod Rhagorol Oriol Y Parc	Taith gerdded sy'n addas i'r teulu, i chwilio am ystlumod. Gwrandewch ar eu galwadau ar synwryddion arbennig a dysgwch am ffordd o fyw anarferol.	Oriel Y Parc, Tyddewi Ffôn: 01437 720392 E-bost: info@orielparc.co.uk
8 Awst	Datgelu'r Traeth: Archwilio Pyllau Glan Môr Gogledd Aberllydan	Ymunwch â'r chwilio wrth i ni edrych yn fanwl ar y bywyd gwyllt diddorol a'r rhyfeddodau naturiol ar yr arfordir.	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040
8 Awst	Dal Crancod Porthclais	Dysgwch am grancod a sut i'w dal a gofalu amdanynt. Darparir offer. Rhaid i blant ddod gydag oedolyn.	Oriel Y Parc, Tyddewi Ffôn: 01437 720392 E-bost: info@orielparc.co.uk
10 Awst	Gwyllo Bywyd Gwyllt Morol Gyda'r Nos Porthgain	Taith gerdded fer ar yr arfordir i chwilio nesyddol Sir Benfro yn chwilio am ystlumod. Cymru. am y miloedd o Balod Manaw wrth iddynt ddychwelyd i ynysoedd Sir Benfro ar ôl diwrnod yn y môr. Cyfle gwyh i chwilio am enghreifftiau eraill o fywyd gwyllt morol.	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040

Digwyddiadau Bioamrywiaeth ym Mai – Awst 2012

Dyddiad	Teitl	Manylion	Cyswllt
14 Awst	Ystlumod Rhagorol Nyfer	Teithiau cerdded byr o amgylch adeiladau hanesyddol Sir Benfro yn chwilio am ystlumod. Gwrandewch am yr ystlumod ar synwryddion arbennig a dysgwch am eu ffordd o fyw anarferol. Dewch â fflach lampau. Fe'ch cynghorwn i ddod â dillad ychwanegol.	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040
15 Awst	Pryfaid ac Anifeiliaid Bach Castell Henllys	Mae sawl creadur rhyfedd yn ymgartrefu yng nghorneli a holltau Castell Henllys. Pa fath o bryfaid ac anifeiliaid bach? Dewch i ymuno â'n hecolegwyr a darganfyddwch y byd dirgel hwn!	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040
15 Awst	Ystlumod Rhagorol Orielson	Teithiau cerdded byr o amgylch adeiladau hanesyddol Sir Benfro yn chwilio am ystlumod. Gwrandewch am yr ystlumod ar synwryddion arbennig a dysgwch am eu ffordd o fyw anarferol. Dewch â fflach lampau. Fe'ch cynghorwn i ddod â dillad ychwanegol.	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040
16 Awst	Datgelu'r Traeth: Archwilio Pyllau Glan Môr Dinbych-y-pysgod	Ymunwch â'r chwilio wrth i ni edrych yn fanwl ar y bywyd gwyllt diddorol a'r rhyfeddodau naturiol ar yr arfordir.	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040
16 Awst	Datgelu'r Traeth: Archwilio Pyllau Glan Môr Dinbych-y-pysgod	Ymunwch â'r chwilio wrth i ni edrych yn fanwl ar y bywyd gwyllt diddorol a'r rhyfeddodau naturiol ar yr arfordir.	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040
16 Awst	Datgelu'r Traeth: Archwilio Pyllau Glan Môr Casnewydd	Ymunwch â'r chwilio wrth i ni edrych yn fanwl ar y bywyd gwyllt diddorol a'r rhyfeddodau naturiol ar yr arfordir.	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040
17 Awst	Gwyllo Bywyd Gwyllt Morol Gyda'r Nos Pen-Caer	Taith gerdded fer ar yr arfordir i chwilio nesyddol Sir Benfro yn chwilio am ystlumod. Cymru. am y miloedd o Balod Manaw wrth iddynt ddychwelyd i ynysoedd Sir Benfro ar ôl diwrnod yn y môr. Cyfle gwych i chwilio am enghreifftiau eraill o fywyd gwyllt morol.	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040

Digwyddiadau Bioamrywiaeth ym Mai – Awst 2012

Dyddiad	Teitl	Manylion	Cyswllt
21 Awst	Ystlumod Rhagorol Oriol Y Parc	Taith gerdded sy'n addas i'r teulu i chwilio am ystlumod. Gwrandewch ar eu galwadau ar synwryddion arbennig a dysgwch am ffordd o fyw anarferol.	Oriel Y Parc, Tyddewi Ffôn: 01437 720392 E-bost: info@orielparc.co.uk
22 Awst	Pryfaid ac Anifeiliaid Bach Castell Henllys	Mae sawl creadur rhyfedd yn ymgartrefu yng nghorneli a holltau Castell Henllys. Pa fath o bryfaid ac anifeiliaid bach? Dewch i ymuno â'n hecolegwyr a darganfyddwch y byd dirgel hwn!	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040
22 Awst	Ystlumod Rhagorol Orierton	Teithiau cerdded byr o amgylch adeiladau hanesyddol Sir Benfro yn chwilio am ystlumod. Gwrandewch am yr ystlumod ar synwryddion arbennig a dysgwch am eu ffordd o fyw anarferol. Dewch â fflach lampau. Fe'ch cynghorwn i ddod â dillad ychwanegol.	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040
23 Awst	Bywyd Dirgel y Nant Gardd Goedwig Colby	Dewch i ddarganfod y bywyd gwyllt diddorol sydd mewn nentydd a phyllau; gweithgareddau ymarferol a hwyl i'r teulu drwy'r dydd. Digwyddiad mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040
23 Awst	Datgelu'r Traeth: Archwilio Pyllau Glan Môr Traeth Maenorbŷr	Ymunwch â'r chwilio wrth i ni edrych yn fanwl ar y bywyd gwyllt diddorol a'r rhyfeddodau naturiol ar yr arfordir.	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040
23 Awst	Taith Gerdded yn yr Afon i'r Ifanc Abergwaun	Cyfle i ddod i wybod am fywyd yr afon mewn manylder. Dewch â'ch rhwydi eich hunain, gwisgwch esgidiau glaw neu esgidiau jeli i gerdded ar hyd gwely'r afon!	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040
29 Awst	Pryfaid ac Anifeiliaid Bach Castell Henllys	Mae sawl creadur rhyfedd yn ymgartrefu yng nghorneli a holltau Castell Henllys. Pa fath o bryfaid ac anifeiliaid bach? Dewch i ymuno â'n hecolegwyr a darganfyddwch y byd dirgel hwn!	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040
30 Awst	Datgelu'r Traeth: Archwilio Pyllau Glan Môr Dinbych-y-pysgod	Ymunwch â'r chwilio wrth i ni edrych yn fanwl ar y bywyd gwyllt diddorol a'r rhyfeddodau naturiol ar yr arfordir.	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040
30 Awst	Datgelu'r Traeth: Archwilio Pyllau Glan Môr Casnewydd	Ymunwch â'r chwilio wrth i ni edrych yn fanwl ar y bywyd gwyllt diddorol a'r rhyfeddodau naturiol ar yr arfordir.	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ffôn 01834 845040
31 Awst	Archwilio Pyllau Glan Môr Oriol Y Parc	Ymunwch â'r chwilio wrth i ni edrych yn fanwl ar y bywyd gwyllt diddorol a'r rhyfeddodau naturiol ar yr arfordir. Rhaid i blant fod yng nghwmni oedolyn.	Oriel Y Parc, Tyddewi Ffôn: 01437 720392 E-bost: info@orielparc.co.uk

Cylchlythyrau Bioamrywiaeth

This newsletter is also available in English, contact Bethan for an English copy.

Hoffai PBSB ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r cylchlythyr hwn. Os ydych chi am ysgrifennu erthygl i'r cylchlythyr nesaf mae croeso i chi gysylltu â Ant.

Manylion Cysylltu PBSB

- **Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth,** Ant Rogers, Ffôn – 01437 764 551 anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk
- Bioamrywiaeth Sir Benfro gwefan www.pembrokeshire.gov.uk (chwilio - bioamrywiaeth)
- Bioamrywiaeth Cymru gwefan www.biodiversitywales.org.uk

Aelodau PBSB



Cymdeithas y Tirfeddianwyr



Cyngor Cefn Gwlad Cymru



Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru



Undeb Amaethwyr Cymru



Y Comisiwn Coedwigaeth



Grwp Ymgynghorol Ffermio a Bywyd Gwylt



Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr – Cymru



Cymdeithas Gymunedol Gyfyngedig 21C Sir Benfro



Cyngor Sir Penfro



Blwyddyn yr Ystlum
2011-2012



Wythnos Bioamrywiaeth Cymru
Wales Biodiversity Week

9 - 17 Mehefin 2012



Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Benfro



Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro



Rhwydwaith Gweithredu Lleol Sir Benfro dros Fenter a Datblygu



Ymddiriedolaeth y Tywysog - Cymru



Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar



Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt De a Gorllewin Cymru

Ar gael hefyd mewn print mwy. Mae croeso i chi gysylltu â Ant i gael anfon copi atoch.

Ant Rogers
01437 764551

Pembrokeshire Biodiversity Partnership

36 likes · 39 talking about this

Organization

Several organizations work together in Pembrokeshire to protect and enhance biodiversity. Together, they form the Pembrokeshire Biodiversity Partnership.

36

Ymwelwch â ni ar Facebook:

<http://www.facebook.com/PembrokeshireBiodiversity>

Ant Rogers - Swydddog Gweithredu Bioamrywiaeth
anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk 01437764551

Bioamrywiaeth Cymru

16